# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arwain dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, yr Aelod Arwain dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; Hugh Irving, yr Aelod Arwain dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, yr Aelod Arwain dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid; Barbara Smith, yr Aelod Arwain dros Foderneiddio a Pherfformiad; David Smith, yr Aelod Arwain dros Dir y Cyhoedd, Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arwain dros Gyllid ac Asedau, ac Eryl Williams, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arwain dros Addysg.

**Sylwedyddion:** y Cynghorwyr Raymond Bartley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Meirick Lloyd Davies, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Win Mullen-James, Dewi Owens, David Simmons a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG); Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen (TB); Rheolwr Cyflenwi TGCh (LE), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac o fuddiant sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

## 5 CYFLEUSTERAU ARFORDIROL Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arwain dros Ddatblygu Economaidd, yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynigion ar gyfer Cyfleusterau Arfordirol y Rhyl a gwaith brys i'r Tŵr Awyr. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynlluniau i gyfleusterau arfordirol y dref, gan edrych ar y cynnig dyfrol yn y dyfodol, yr Heulfan, Theatr y Pafiliwn a Phentref y Plant. Gwnaethpwyd argymhellion cychwynnol hefyd ar gyfer dyfodol Canolfan Nova, Prestatyn.

Dymunai'r Cynghorydd Evans egluro'r cyfeiriadau at Clwyd Leisure yn yr adroddiad, gan gynghori bod y Cyngor hefyd yn gyfrifol am y cynnig hamdden, a soniodd am yr anawsterau o ran cynnal yr Heulfan a buddsoddi ynddo, am resymau amrywiol. Roedd y cynigion yn arwydd o ddechrau oes newydd i'r Rhyl gan arwain at gynnig hamdden newydd, creu swyddi newydd ac ysgogi buddsoddiad preifat pellach yn y dref. Byddai datblygiad y prosiect yn mynd rhagddo gyda phartner datblygu'r Cyngor, Alliance Leisure, gyda phecyn cyflawn o brosiectau i ategu ei gilydd ac a fyddai o fudd i breswylwyr a thwristiaid.

Bu Rheolwr y Rhyl yn Symud Ymlaen yn rhoi cyflwyniad PowerPoint am y cynigion i'w hystyried yn codi o astudiaeth ddichonolrwydd gychwynnol o'r prosiectau. Ymhelaethodd ar -

- y cefndir yn arwain at yr adroddiad cyfredol gan gynnwys cyfeiriad at astudiaethau blaenorol a newidiadau allweddol ers hynny
- creu cynnig hamdden ddyfrol blaenllaw newydd gan gyfeirio at leoliad, dyluniad y cyfleuster, hamdden wlyb (cymysgedd o nofio ffurfiol a hamdden), ffitrwydd, caffi, dringo ac efallai chwaraeon traeth ynghyd â darluniadau o'r math o gyfleusterau ac adeiladau a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan y prosiectau
- gwaith brys a oedd yn ofynnol i'r Tŵr Awyr ynghyd â dewisiadau'r dyfodol
- argymhelliad i ddymchwel yr Heulfan a naill ai tirlunio'r safle, ceisio denu datblygiad gwesty, neu ddatblygu maes parcio newydd
- argymhellion i wella Theatr y Pafiliwn ac ystyried y potensial am dwf busnes gwledda a chynadledda
- cau Pwll presennol Canolfan Hamdden y Rhyl wedyn gyda'r Ganolfan yn gwasanaethu ysgolion/colegau ac anghenion chwaraeon lleol yn y dyfodol
- ystyriaethau ehangach Cynllun y Rhyl yn Symud Ymlaen gan gynnwys: adleoli'r parc sglefrio; datblygu gwesty newydd; gwella'r maes parcio tanddaearol a buddsoddi ym maes parcio Crescent Road ynghyd â dull rheoli gweithredol cyffredinol i gydlynu hamdden ac adfywio, a
- chynigion am adolygiad penodol i ystyried dewisiadau'r dyfodol ar gyfer Canolfan Nova na fyddent yn tanseilio llwyddiant cynnig dyfrol a glan môr newydd y Rhyl.

Wrth ddod i ben, dywedodd Rheolwr y Rhyl yn Symud Ymlaen y gallai cynnig hamdden a dyfrol newydd chwarae rhan hanfodol yn y gwaith cyffredinol i adfywio'r llain arfordirol a'r Rhyl yn gyrchfan i ymwelwyr. Yn olaf, soniodd am y camau nesaf pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r adroddiad yn fodd o drawsnewid y Rhyl drwy becyn cydlynol o brosiectau a fyddai o fudd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Cydnabuwyd y byddai'r cynigion yn hybu hyder a buddsoddiad y sector preifat, gan

greu cyfleoedd busnes a swyddi newydd. Amlygwyd hefyd y posibilrwydd i'r buddsoddiad hwnnw effeithio'n gadarnhaol ar Ganol Tref y Rhyl. Cyfeiriodd yr Aelodau at eu hatgofion a'u profiadau eu hunain o'r Rhyl yn gyrchfan glan môr prysur gan gydnabod bod yr Heulfan a arferai fod yn eiconig wedi gweld dyddiau gwell a bod angen atyniad newydd sy'n addas i'r 21ain ganrif. Wrth ystyried natur uchelgeisiol y cynigion, mynegodd yr aelodau eu barn am agweddau amrywiol ar yr adroddiad a manteisiwyd ar y cyfle i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd am sicrhad am nifer o bethau hefyd fel a ganlyn –

- bod yr Heulfan yn dal i weithredu nes bod cyfleuster wedi'i agor yn ei lle
- na fyddai Canolfan Nova dan anfantais o ganlyniad i'r cynigion
- bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gynnwys pwll 50 metr yn y manylebau er mwyn denu cystadlaethau
- na ddylid colli'r parc sglefrio fel cyfleuster ac y dylid ystyried ei adleoli yn ofalus o ystyried ei boblogrwydd
- bod angen i'r adeilad a'r cyfleusterau newydd fod yn ymarferol ac yn addas at ddiben, gyda chostau gweithredu a chynnal a chadw rhesymol
- sicrhau bod cynnig newydd y Rhyl yn cyfrannu at adfywio ehangach yn yr ardal, a Chanol y Dref yn benodol, a
- chywirdeb costau a ddarperir i'r prosiect a modelau cyllid.

Wrth ateb yr aelodau, dywedodd y swyddogion –

- fod y Cyngor wedi egluro ei fod yn dymuno i'r Heulfan ddal i weithredu cyhyd â phosibl nes bod unrhyw gynigion newydd yn cael eu datblygu
- bod gan Clwyd Leisure weledigaethau ar gyfer Canolfan Nova a bod cynlluniau clir i fynd ymlaen â'r rheini gydag aelodau Prestatyn
- darparwyd darluniad o'r modd y gellid gosod pyllau allan; roedd Alliance Leisure wedi nodi y byddai'n barod i'w hariannu a'i bod yn bwysig darparu digon o le pwll i fodloni'r galw. Gellid ystyried ymhellach cynnwys pwll 50 metr yn y cyfleuster pe dymunai'r aelodau
- cydnabuwyd bod y parc sglefrio'n gyfleuster pwysig a byddai safleoedd amgen priodol yn cael eu hystyried
- ei bod yn bwysig darparu strwythur eiconig a fyddai'n cael ei gydnabod ac a fyddai'n ysgogi adfywio ond bod yr angen am fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol yn ei ddyluniad i sicrhau cyfleuster cynaliadwy i'r dyfodol
- bod y Cyngor wedi buddsoddi'n synhwyrol yn ei stoc hamdden ei hun a oedd wedi'i chynnal i safon dda, a fyddai'n cael ei chynnwys mewn unrhyw brosiectau yn y dyfodol
- dim ond costau dangosol a oedd wedi'u darparu ar hyn o bryd a byddai cam nesaf y broses yn darparu gwir gostau'r prosiectau
- am fod Theatr Fach y Rhyl yn gyfleuster cymunedol, nid oedd wedi'i hystyried yn rhan o'r cynnig theatr a oedd yn canolbwyntio ar ddichonolrwydd masnachol
- roedd gwaith wedi'i wneud gyda Grŵp Busnes y Rhyl a Chyngor y Dref i gyfarwyddo dyfodol Canol y Dref a oedd yn amgylchedd heriol iawn
- roedd gofynion parcio ceir yn cael eu hystyried a byddai'r achos busnes yn ystyried y ffordd orau o ddarparu lleoedd parcio ac yn ystyried a fyddai'n gonsesiynol

- cadarnhawyd bod y partner datblygu, Alliance Leisure, yn adolygu cyfleusterau hynny'r Cyngor nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol neu a allai gynhyrchu mwy o incwm.

Pwysleisiodd y Cabinet hefyd fod angen sicrhau dichonolrwydd economaidd y prosiect i'r dyfodol a thrafodwyd gyda'r swyddogion y ffrydiau ariannu posibl a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr achos busnes. Bu'r Pennaeth Cyllid ac Asedau'n atgoffa'r aelodau nad oedd yn cytuno i'r prosiect heddiw ac y byddai'n rhaid i achos busnes manwl gael ei gyflwyno a'i adolygu'n ofalus cyn y gellid gwneud unrhyw benderfyniad am y prosiect. Amlygwyd hefyd fod angen cadw cyflogaeth yn lleol. Rhybuddiodd y Cynghorydd Hugh Irving y gellid gosod amodau ynghlwm wrth gyllid grant, a bod angen ei ystyried yn ofalus. Roedd cyllid ychwanegol eisoes wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn archwilio dichonolrwydd materion parcio ceir a thir y cyhoedd a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect.

Yn y man hwn, gwahoddodd yr Arweinydd y rheini nad ydynt yn aelodau Cabinet i siarad ac roedd yn benodol o awyddus i glywed barn Aelodau'r Rhyl. Dywedodd y Cynghorwyr Joan Butterfield a David Simmons eu bod yn llwyr gefnogi'r cynigion yn gam cadarnhaol ymlaen ar gyfer dyfodol y Rhyl, gan ddisgrifio buddion y cynigion i breswylwyr a thwristiaid ac o ran adfywio ehangach y Rhyl. Roedd Aelodau'r Rhyl wedi cael gwybod yn llawn am y cynigion ac roeddent yn awyddus i'r cynlluniau cyffrous fynd ymlaen i'r cam nesaf. Roedd aelodau eraill yn falch o nodi y byddai costau refeniw a chynnal a chadw parhaus yn ystyriaeth fawr yn natblygiad y cyfleusterau newydd. Cafodd y traeth ei gymeradwyo hefyd yn fantais enfawr ac amlygwyd bod angen sicrhau ei welededd a'i bod yn hawdd cael ato, ynghyd â dull mwy cyfannol er mwyn integreiddio cynnig newydd y Rhyl gyda phrosiectau eraill yno er mwyn cynnig pecyn cyfan. Mewn ymateb i'r sylwadau hynny a chwestiynau pellach, bu i'r Aelod Arwain a'r Swyddogion –

- gytuno bod dull cydgysylltiedig ar goll yn y gorffennol ond bod llawer o waith wedi'i wneud yn ddiweddar i ddarparu dull mwy integredig
- ymhelaethu ar ddewisiadau posibl i gynnwys gwesty yn rhan o'r cynigion ynghyd â dewisiadau parcio ceir a fyddai'n cael eu harchwilio'n llawn yng ngham 2
- cydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ddatblygu cyfleusterau felly gan gynghori bod arolygon strwythurol wedi'u cynnal yn ystod yr astudiaeth ddichonolrwydd gydag ymchwiliadau pellach i'w cynnal yng ngham 2
- cynghori y byddai'r broses gyllido'n cael ei hystyried ar ôl costio'r prosiect yn llawn, ac y byddai'r cyllid yn debygol o ddod o amrywiaeth o ffynonellau
- cadarnhau bod y prosiect yn fenter enfawr y byddai angen ei chwblhau cyn y byddai mentrau mawr eraill yn cael eu hystyried, fel yr awgrym am drên stêm o Ganolfan Nova i'r Rhyl
- gellid rhoi gwybod i'r aelodau am y cynigion yn Sesiwn Wybodaeth y Cyngor pe dymunid a gellid gwneud y prosiect yn destun craffu i'w ystyried ymhellach; disgrifiwyd y broses a'r amserlenni i weithredu'r cynigion yn yr adroddiad.

Soniodd y swyddogion am benodi'r partner datblygu, Alliance Leisure, yn ddull arloesol o reoli stoc hamdden ac am y gwelliannau a'r buddion sylweddol a gyflawnwyd o ganlyniad a ddylai rhoi hyder i'r aelodau yn y cynigion. Ychwanegodd y Cynghorydd Huw Jones fod awdurdodau lleol eraill yn ystyried cau neu

drosglwyddo cyfleusterau hamdden ac amlygodd y ffordd yr oedd Sir Ddinbych wedi elwa ar y dull arloesol hwn a oedd bellach yn cael ei ystyried gan eraill gan ddisgwyl dirprwyaeth o Gyngor Dinas Caerdydd. Manteisiodd y Cynghorydd Jones hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r tîm Hamdden a thîm y Rhyl yn Symud Ymlaen am eu gwaith caled i ddatblygu'r cynigion.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr argymhellion ac, yng ngoleuni'r gefnogaeth i ystyried pwll nofio 50 metr yn yr astudiaeth ddichonolrwydd, cynigiwyd hyn fel gwelliant gan y Cynghorydd Julian Thompson Hill ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Huw Jones. Ar fwrw'r bleidlais –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo'r prosiectau arfaethedig mewn egwyddor a datblygiad Cam 2 achos busnes/cyfiawnhad a ffioedd Cam 2 hyd at £30,000 er mwyn:*

- *symud ymlaen â datblygiad y dyluniad a'r astudiaeth ddichonolrwydd i'r ganolfan ddyfrol newydd yn y lleoliad arfaethedig wrth ymyl y pwll padlo presennol;*
- *cynnwys ystyriaeth benodol i bwll nofio 50 metr yn yr astudiaeth ddichonolrwydd;*
- *ymgorffori cynaliadwyedd strwythur y Tŵr Awyr yn y cynlluniau hyn a datblygu cynigion am ei ddefnyddio/ei wella yn y dyfodol*
- *cydnabod egwyddor dymchwel strwythur presennol yr Heulfan gan arwain at ddatblygu dyluniadau a dichonolrwydd ar gyfer gwelliannau i Theatr y Pafiliwn;*
- *cytuno i ddatblygu'r pecyn cyfan (fel un prosiect) i achos busnes manwl;*
- *penodi Alliance Leisure Ltd dan delerau'r cytundeb fframwaith presennol i gynorthwyo i ddatblygu'r prosiect*
- *sicrhau bod y dull yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynlluniau ehangach y Rhyl yn Symud Ymlaen a sicrhau effaith y prosiect ar y cynlluniau hynny;*
- *sefydlu Bwrdd Prosiect i fonitro a chyfarwyddo cynnydd, a*

*(b) cymeradwyo gwaith brys i'r Tŵr Awyr i leihau'r risgiau iechyd a diogelwch presennol ac i ddiogelu'r strwythur – hyd at £35,000 o gyllideb uchaf.*

**6 CYFLAWNI CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans, yr Arweinydd a'r Aelod Arwain dros Ddatblygu Economaidd, a'r Cynghorydd Huw Jones, yr Aelod Arwain dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, yr adroddiad ar y cyd yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau'r broses ar gyfer cyfuno ac ehangu'r Cynlluniau Tref a chymeradwyo dyraniad cychwynnol cyllid i flaenoriaethau a nodwyd yn 2012/13 a 2013/14.

Roedd yr adroddiad yn nodi mesurau a gyflwynwyd i fynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai o faint a mwy gwledig, gan gynnwys ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach (gan gynnwys penodi Hyrwyddwyr Tref a chymorth swyddog a sefydlu Grŵp Cydlynu Tref). Bu'r Cynghorydd Huw Jones hefyd yn ymhelaethu ar ei rôl yn gofalu am yr agwedd datblygu gwledig i sicrhau bod yr anghenion yn yr ardaloedd gwledig hefyd yn cael sylw, ac ar y

gwaith a wnaethpwyd hyd yma er mwyn nodi ardaloedd â blaenoriaeth yn y cymunedau hynny. Tynnwyd sylw'r Aelodau i'r cynigion cyllid i weithredu blaenoriaethau a nodwyd, ynghyd ag argymhellion y Grŵp Cydlynu Cynllun Tref ar ddyraniad cychwynnol y cyllid fel y'i disgrifir yn yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad, pwysleisiodd y Cabinet mor bwysig oedd cyflwyno dull effeithiol o fynd i'r afael ag anghenion y cymunedau gwledig a thrafododd y trefniadau llywodraethu wrth ddatblygu'r cynlluniau tref yn gynlluniau ardal ehangach, gan amlygu buddion y trefniadau hynny i drefi a chymunedau fel ei gilydd. Soniodd yr Aelodau hefyd am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflenwi'r cynlluniau tref i'w hardaloedd unigol drwy'r Grwpiau Ardal Aelod a'u perthynas â'r cymunedau o'u cwmpas. Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- bu'r aelodau'n ystyried a ddylid categoreiddio Bodelwyddan fel tref yng ngoleuni'r cynigion a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r niferoedd mawr a gyflogir yno. Cydsyniwyd y dylid ystyried y peth ymhellach ar ôl gwneud penderfyniad terfynol ar fabwysiadu'r CDLl
- cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol i gylchredeg rhestr o gymunedau a'r trefi y byddent yn gysylltiedig â hwy
- i roi sicrhad ynglŷn â chynnydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y byddai adroddiadau cynnydd am bob tref yn cael eu llunio
- byddai'r Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn mynd i bob Grŵp Aelod Ardal i drafod cyflenwi'r cynlluniau
- roedd y Prif Weithredwr yn teimlo bod angen i'r strwythur cynllun tref cyfredol esblygu'n ardaloedd mwy rhesymegol i ymdrin â'r sir gyfan ac awgrymodd y dylid amlygu'r rhain yn y penderfyniad
- roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn teimlo y byddai'n fuddiol sefydlu Grŵp Ardal Wledig, yn ogystal â chynnwys cymunedau gwledig mewn Cynlluniau Ardal ehangach, er mwyn cynhyrchu syniadau, arfer da a dysgu am yr hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill. Awgrymodd yr Arweinydd ailsefydlu'r Grŵp Gwledig blaenorol a gofynnodd i'r Cynghorydd Huw Jones fynd â'r mater yn ei flaen
- nodwyd y byddai ardaloedd ward penodol sy'n cynnwys cymunedau gwledig yn debygol o gael eu cysylltu â gwahanol drefi, a allai achosi anhawster ac a amlygwyd yn faes pryder. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol fod angen ystyried ffiniau sefydliadol y Cyngor a'r rheini a wneir gan y cymunedau i sicrhau'r pontio mwyaf priodol o Gynlluniau Tref i Gynlluniau Ardal
- cytunodd y Cabinet y bydd adroddiad cynnydd am weithredu'r trefniadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w gyfarfod ym mis Mai

Cymeradwyodd y Cabinet y cynigion cyllid i weithredu blaenoriaethau ac roedd yn falch o nodi bod cyllid wedi'i atal i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd wedyn yn y cymunedau gwledig. Ychwanegodd y Cynghorydd Joan Butterfield y byddai cyllid yn cael ei geisio hefyd am brosiectau a nodir yng Nghynllun Cyflenwi'r Rhyl yn Symud Ymlaen pan fydd wedi'i gwblhau. Ar y cyfan, sicrhawyd y Cabinet fod y trefniadau i ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad yn darparu dull priodol o integreiddio anghenion y cymunedau llai o faint

a gwnaethpwyd gwelliant i'r argymhelliad i egluro'r trefniadau hynny. Ar fwrw pleidlais -

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *datblygu'r trefniadau a sefydlwyd i gyfuno Cynlluniau Tref i'w hehangu'n Gynlluniau Ardal ehangach sy'n ymgorffori Hyrwyddwyr Cynllun Tref, y Grŵp Cydlynu Cynllun Tref a'r cymorth swyddog cysylltiedig*

(b) *cadarnhau'r cyllid sydd ar gael i weithredu'r blaenoriaethau yn y Cynlluniau Tref a'r Cynlluniau Ardal ehangach yn dod o'r ffynonellau canlynol:*

- *Cyllid blaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 'Gwella'r economi leol'*
- *Cyllideb refeniw cyllid cymunedol*
- *Dyraniad cyfalaf arian cyfatebol a chyfalaf cymunedol*

(c) cymeradwyo'r argymhellion gan Grŵp Cydlynu Cynllun Tref ar ddyraniad cychwynnol o gyllid yn 2012/13 a 2013/14.

**7 COFRESTRU AWTOMATIG AR GYNLLUNIAU PENSIWN (CYFRIFOLDEB CYFLOGWR A GOBLYGIADAU COST)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn disgrifio ymateb arfaethedig y Cyngor i ofynion Deddf Pensiynau 2008, dewisiadau gweithredu ac argymhellion y gofynnwyd i'r Cabinet eu cymeradwyo.

Soniwyd wrth yr Aelodau am ddyletswydd cyflogwyr i gofrestru gweithwyr cymwys yn awtomatig ar gynllun pensiwn gweithlu sy'n cymhwyso ac am y mesurau sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor er mwyn bodloni'r gofynion newydd. Roedd yn rhaid i'r Cyngor ddechrau cofrestru staff yn awtomatig yn effeithiol o 1 Mai 2013 (y "dyddiad llwyfannu") er gallai cyflogwyr ddefnyddio gohiriad trosiannol i'r gweithredu llawn tan 1 Hydref 2017. Ar ôl y dyddiad llwyfannu, byddai cyflogeion cymwys newydd yn cael eu cofrestru adeg cymhwyster ac ni fyddent yn cael eu gohirio. Eglurwyd y byddai cofrestru awtomatig yn cyflwyno goblygiadau ariannol i'r Cyngor a oedd yn anodd eu rhagweld ond y byddai cymhwyso'r gohiriad trosiannol yn lleihau'r effaith ariannol uniongyrchol. Roedd y rheolau mewn perthynas â staff wrth gefn ac achlysurol nad ydynt yn addysgu hefyd wedi newid, gan ddod yn fwy cymhleth, a gallai'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau fod yn sylweddol gyda dewisiadau'n cael eu hystyried i liniaru'r effaith. Yn olaf, tynnwyd sylw'r aelodau i'r camau a gymerwyd hyd yma i ymateb i'r rheoliadau newydd ynghyd â dewisiadau gweithredu arfaethedig i'r dyfodol.

Bu'r Cynghorydd David Smith yn holi aelodau etholedig am y sefyllfa a dywedwyd wrtho y gallai cynghorwyr ddewis ymuno â'r cynllun pensiwn o hyd os ydynt yn gymwys, heblaw bod y ddeddfwriaeth yn newid o gwbl yn y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies am eglurhad o effaith y newidiadau ar Gynghorau Tref a Chymuned ac amlygodd ei bryderon y gallai fod yn ataliol o ran cost i'r cynghorau hynny gyflogi clercod o ganlyniad. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod gan gyflogwyr llai o faint ddyletswydd hefyd (yn nes ymlaen) i gofrestru cyflogeion os ydynt yn gymwys a'i bod yn debygol y byddai angen iddynt reoli eu gwasanaethau

cyflogres eu hunain yn y dyfodol o ganlyniad. Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda Gwasanaeth Cyflogres y Cyngor ynghylch yr effaith ar sefydliadau eraill sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, a sut y byddai'n cael sylw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion –*

*(a)* *i ddechrau cofrestru'n awtomatig yr holl staff newydd neu'r rheini sy'n dod yn gymwys yn y cynllun pensiwn perthnasol o 1 Mai 2013;*

*(b)* *i ohirio cofrestru awtomatig i staff a benderfynodd yn flaenorol beidio ag ymuno â'r cynllun perthnasol tan 1 Hydref 2017, ac*

*(c)* *i nodi'r goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rheoliadau newydd.*

**8 CYLLIDEB 2013/14**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn disgrifio'r cynigion cyllideb ar gyfer 2013/14 ac yn arwain at 2% o gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor. Roedd Cynigion Arbed Cyllideb ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1); Grantiau a drosglwyddwyd i'r Setliad Cyffredinol 2013/14 (Atodiad 2), a Chyllideb Sir Ddinbych 2013/14 (Atodiad 3) wedi'u gosod ynghlwm wrth yr adroddiad.

Soniwyd wrth yr Aelodau am setliad terfynol is na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys toriad mewn cyllid cyfalaf a oedd yn golled sylweddol. Amlygwyd y goblygiadau ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ynghyd â'r arbedion a oedd yn ofynnol dros y tair blynedd nesaf a'r rhagolygon diweddaraf o ran pwysau a nodwyd yn flaenorol. Cyfeiriwyd hefyd at -

- ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y byddai Cyllidebau Ysgolion a Gofal Cymdeithasol yn cael eu gwarchod rhag arbedion a fyddai'n rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau eraill a oedd yn gorfod dod o hyd i arbedion ychwanegol i wneud iawn [ar gyfer 2013/14 roedd tua 56% o'r gyllideb wedi'i neilltuo a'i gwarchod]
- goblygiadau ariannol sy'n codi o'r Cynllun Cymorth Treth Gyngor
- y diweddaraf am ganlyniadau'r gweithdai cyllideb a gynhaliwyd i aelodau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2012 (ynglŷn ag arbedion, blaenoriaethau a'r dreth gyngor)
- yn seiliedig ar y cynigion cyfredol, roedd y cynnydd canlyniadol yn y Dreth Gyngor yn 2% a'r dybiaeth sylfaenol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol oedd y byddai'r Dreth Gyngor yn dal i godi tua 2%

Wrth ystyried yr adroddiad, roedd yr aelodau'n falch o nodi'r tryloywder yn y broses gosod cyllideb gyda digonedd o gyfle i'r aelodau gyfrannu. Canmolwyd hefyd y dull dychmygus o reoli cyllid mewn adegau ariannol mor heriol. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau -

- er gwaethaf gwarchod cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol, roedd disgwyl o hyd i'r gwasanaethau hynny wneud arbedion effeithlonrwydd ond byddent yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gwasanaeth hwnnw
- roedd y rhan fwyaf o arbedion cydweithio wedi'u tynnu allan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig am na ellid eu cyflenwi, a oedd yn rhoi pwysau ar arbedion i'w gwneud yn fewnol
- roedd goblygiadau enfawr posibl yn codi o'r Bwrdd Iechyd yn ad-drefnu gwasanaethau iechyd ond nid oedd llawer yn hysbys ar hyn o bryd
- roedd y cynigion cyllideb cyfredol yn dangos bod yr awdurdod yn buddsoddi yn ei flaenoriaethau ac yn gwarchod gwasanaethau rheng flaen wrth gadw'r Dreth Gyngor mor isel â phosibl
- cadarnhawyd bod ardoll y Gwasanaeth Tân yn £70k islaw'r lefel a gynlluniwyd ond nad oedd praesept yr Heddlu wedi'i osod eto (dywedodd y Cynghorydd Cowie y byddai Comisiynydd yr Heddlu'n cyflwyno cynigion cyllideb i'r Panel Trosedd yr wythnos ganlynol)
- byddai cyfeiriad at yr Eisteddfod Genedlaethol yn y cynigion arbedion yn cael ei ddileu gan fod y cyllid sylfaenol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at heriau ariannol mwy i'w hwynebu gan awdurdodau lleol yn y dyfodol ac at ansicrwydd ynglŷn â chyllid y dyfodol. Cynigiodd gynyddu lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14 i 2.5% gyda'r refeniw ychwanegol yn cael ei neilltuo mewn Cronfa Gymorth Refeniw a fyddai'n cael ei defnyddio i wneud iawn am anawsterau ariannol a fyddai'n wynebu'r awdurdod yn y dyfodol. Roedd yn teimlo y byddai dull felly'n ddoeth yn yr hinsawdd economaidd gyfredol ac y byddai'n helpu i ddiogelu rhag cynyddu'r Dreth Gyngor yn ddramatig eto yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Huw Jones. Wrth ystyried y cynnig, cytunodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol am gryn dipyn eto ond dywedodd fod tybiaethau rhesymol wedi'u cynnwys gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i fynd i'r afael â phwysau wrth iddynt ymddangos i'r awdurdod. Siaradodd y Prif Weithredwr yn erbyn y cynnig a theimlai ei fod yn anfon y neges anghywir pe byddai'r Dreth Gyngor yn cael ei gosod ar lefel uwch nag yr oedd ei hangen, gan ychwanegu bod arian wedi'i neilltuo mewn cronfeydd a balansau i ymdrin ag argyfyngau posibl yn y dyfodol. Dywedodd fod 2% yn lefel gyraeddadwy a chyfrifol. Amlygodd y Cynghorydd Barbara Smith fod gan Sir Ddinbych un o'r cyfraddau uchaf o'r Dreth Gyngor a theimlai y dylid mynd i'r afael â'r lefel gyda'r bwriad o gydraddoldeb ag awdurdodau eraill. Er ei fod yn cydnabod mai'r dybiaeth wreiddiol at ddibenion cynllunio ariannol oedd 2.75% o gynnydd, roedd yr Arweinydd yn teimlo y dylid fod wedi dadlau am y cynnig i gynnwys dull diogelu ariannol i'r dyfodol yn gynharach yn y broses cynllunio cyllideb. Roedd yn hyderus fod y broses gosod cyllideb yn gadarn ac yn gyraeddadwy. Amlygodd y Cynghorydd Hugh Irving fod llawer o breswylwyr yn cael trafferthion ariannol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a chytunodd fod lefel o 2% yn rhesymol. Roedd yn credu y byddai'r Cyngor yn cael ei feirniadu pe byddai'n gosod lefel uwch o'r Dreth Gyngor nag yr oedd ei hangen.

Ar fwrw pleidlais, COLLWYD y gwelliant i gynyddu lefel y Dreth Gyngor 2.5% a DERBYNIWYD y cynnig gwreiddiol i gynyddu'r lefel 2%.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *yn cefnogi'r cynigion cyllideb ar gyfer 2013/14 fel y'u dangosir yn yr atodiadau ac yn argymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn, a*

(b) *yn argymell y 2.0% canlyniadol o gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14 i'r Cyngor llawn.*

[Ymatalodd y Cynghorwyr Huw Jones ac Eryl Williams rhag pleidleisio ar benderfyniad (b) uchod.]

**9 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn disgrifio'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni. Rhoes grynodeb byr o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd £453k o danwariant ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol gyda'r rhagolwg ar gyfer ysgolion yn symudiad cadarnhaol ar £121k o falansau
- cyflawnwyd £2.834m (82%) o arbedion y cytunwyd arnynt, gyda £584k (17%) yn cael ei symud ymlaen a £25k (1%) yn cael ei ohirio hyd y flwyddyn nesaf
- amlygwyd amrywiadau allweddol o dargedau arbedion neu gyllidebau a manylion cyllidebau gwasanaeth unigol
- rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Nodwyd na fu llawer iawn o symudiad ariannol ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet, am fod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi torri ar draws.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r targedau cyllidebau ac arbedion ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.*

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Blaenraglen Waith y Cabinet*.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**11 DYFARNU CYTUNDEB FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU DYFEISIAU AML-SWYDDOGAETH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r Fframwaith Dyfeisiau Aml-swyddogaeth i gyflenwr a enwyd ar y sail y byddai fframwaith a ddefnyddir gan gyrff corfforaethol

ac ysgolion yn gwneud arbedion sylweddol; roedd costiadau llawn yn yr adroddiad. Eglurodd fod Dyfeisiau Aml-swyddogaeth yn ddyfeisiau rhwydwaith mawr a allai argraffu, sganio, llungopïo ac e-bostio dogfennau ac y gallent felly ymgorffori gofynion llungopïo ac argraffu'r awdurdod. Roedd y contract am gyfnod o bum mlynedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles fod rhesymoli argraffwyr yn un o nifer o brosiectau moderneiddio sydd ar y gweill. Byddai effaith y newid yn sylweddol i rai gwasanaethau ac amlygodd fod angen hyfforddiant ac arweiniad er mwyn cefnogi staff. Wrth gefnogi'r argymhelliad, bu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn cymeradwyo'r cydweithio rhwng TGCh a Chaffael. Ychwanegodd y dylid argymell hefyd fod ysgolion yn defnyddio'r contract yng ngoleuni'r arbedion i'w gwneud. Roedd y Prif Weithredwr yn credu y dylai fod disgwyliad i ysgolion ddefnyddio'r contract i arbed effeithlonrwydd. Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams nad oedd cyllidebau TGCh i ysgolion llai o faint yn caniatáu iddynt ddatblygu gwasanaethau TG ac na fyddent efallai'n gallu fforddio ymuno â'r cynllun. Gofynnodd am gael gwybod rhagor am y ffordd y gellid gweithredu'r contract mewn ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn awdurdodi dyfarnu'r fframwaith Dyfeisiadau Aml-swyddogaeth i'r cyflenwr a enwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.05pm.